| | |
|---|---|
| **Dach chi'n mwynhau chwarae rygbi?** ✓ | **Wyt ti'n mwynhau gwylio snwcer ar y teledu?** ✓ |
| **(Y)Di o'n byw ym Mhrestatyn?** ✓ | **Dan ni'n mynd i'r parti heno?** ✓ |
| **(Y)Di hi'n yfed gwin coch?** ✓ | **Ydyn nhw'n 'nabod John Davies?** ✓ |
| **Dach chi'n bwyta cyrri bob nos Lun?** ✓ | **Wyt ti'n licio darllen y papur?** ✓ |

***Yndw**, dw i'n mwynhau gwylio snwcer ar y teledu*

***Yndw**, dw i'n mwynhau chwarae rygbi.*
***Yndan**, dan ni'n mwynhau chwarae rygbi*

***Yndan**, dan ni'n mynd i'r parti heno.*
***Yndach**, dach chi'n mynd i'r parti heno.*

***Yndi**, mae o'n byw ym Mhrestatyn.*

***Yndyn**, maen nhw'n 'nabod John Davies.*

***Yndi,** mae hi'n yfed gwin coch.*

***Yndw**, dw i'n licio darllen y papur*

***Yndw**, dwi'n bwyta cyrri bob nos Lun.*
***Yndan**, dan ni'n bwyta cyrru bob nos Lun.*

| | |
|---|---|
| **Dan ni’n mynd<br>ar y bws?<br>x** | **(Y)Di Rhys yn siopa yn Asda?<br>x** |
| **(Y)Di Siân yn gwisgo<br>ffrog i’r parti?<br>x** | **Dyn nhw’n gwybod<br>beth ydi’r ateb?<br>x** |
| **(Y)Di hi’n gyrru car glas?<br>x** | **(Y)Di o’n gweithio<br>mewn swyddfa?<br>x** |
| **Dach chi’n mwynhau<br>coginio?<br>x** | **Wyt ti’n darllen<br>cyn mynd i’r gwely?<br>x** |

***Nac'di**, (dy)di Rhys ddim yn siopa yn Asda.*

***Nac'dan**, dan ni ddim yn mynd ar y bws.*
***Nac'dach**, dach chi ddim yn mynd ar y bws.*

***Nac'dyn**, dyn nhw ddim yn gwybod beth ydi'r ateb.*

***Nac'di**, (dy)di Siân ddim yn gwisgo ffrog i'r parti.*

***Nac'di**, (dy)di o ddim yn gweithio mewn swyddfa.*

***Nac'di**, (dy)di hi ddim yn gyrru car glas.*

***Nac'dw**, dw i ddim yn darllen cyn mynd i'r gwely.*

***Nac'dw**, dw i ddim yn mwynhau coginio.*
***Nac'dan**, dan ni ddim yn mwynhau coginio.*